

## Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd  
Ddydd Iau 11 Ionawr, 2018

yn  
Nova, Beach Road West, Prestatyn,  
am 10:30am

### Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol

Gwen Butler  
Toni Mayne  
Jim Gaffney  
Jo Hughes  
John Buckley  
Max Grant  
Kevin Slattery  
Chris Marshall  
Martyn Holland  
Paul Frost  
Don Milne  
Hugh Crosswood

### Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Hannah Arndt (Swyddog Mynediad ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol)  
Helen Mrowiec (Uwch Swyddog Hamdden)

### Yn Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sian Williams (Swyddog Mynediad)  
Victoria Currie (Cydlunydd Ardal)  
Caroline Turner (Swyddog Mapiau Swyddogol)

### Arsylwyr

Paul Mitchell (Cyfoeth Naturiol Cymru)

### Cyflwynwyd Ymddiheuriadau am Absenoldeb gan: -

Hilary Davies, Heather Fitzgerald, Kay Culhane, Dan Hurst, Tim Faire, Iona Pierce, Duncan Barratt.  
Cynigodd Nick Lloyd ei ymddiswyddiad o'r Fforwm.  
Arweiniwyd y cyfarfod gan Gwen Butler fel Is-Gadeirydd.

### Nodiadau a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Diwethaf

Gofynnodd yr Is-Gadeirydd a oedd nodiadau'r cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir. Cynigiodd Paul Frost eu bod yn gywir ac fe eiliodd Tom Woodall. Roedd y camau gweithredu a godwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn;

Pwynt Gweithredu	Manylion y Cam Gweithredu	Y Sefyllfa Bresennol
PG 5.1	CSDd a CBSC i roi adborth ar gynllun 'Rhoi Giât' posib.	Eitem ar Raglen 11/01/2018
PG 5.2	HA i ailddosbarthu'r manylion am Deithio Llesol	Wedi'i Gwblhau
PG 5.3	HM i ddarparu crynodeb o'r drafodaeth a'i ddosbarthu i'r aelodau o fewn wythnos i'r cyfarfod	Wedi'i Gwblhau

### Cynllun Amaeth-amgylcheddol Glastir Uwch

Siaradodd Jane Tibbott (Swyddog Glastir Uwch) â'r Fforwm ynglŷn â sut mae'r Cynllun Glastir Uwch yn cael ei redeg a sut mae'r Fforymau Mynediad Lleol yn rhan o awgrymu ardaloedd ar gyfer mynediad caniataol drwy'r cynllun. Mae Cynllun Glastir Uwch wedi bod yn rhedeg ers 2012. Mae Adran yr

Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar hyn o bryd mewn trafodaethau gyda'r Senedd ynghylch cynlluniau ar ôl Brexit, ond nid oes cynlluniau newydd ar y gweill.

Mae'r elfen o fynediad caniataol yng Nghynllun Glastir yn barhad o gynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal. Mae'n rhaid i Glastir gyflawni gofynion Mesur yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r cyfnod ymgeisio wedi cau ar hyn o bryd. Cyflwynwyd datganiadau o ddiddordeb gan ymgeiswyr drwy eu cyfrifon Taliadau Gwledig Cymru ar-lein. Mae Swyddogion nawr yn mynd drwy'r datganiadau o ddiddordeb a gwneir dewisiadau yn seiliedig ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru (Dŵr a Charbon ar hyn o bryd). Ar ddiwedd y Gwanwyn 2018, bydd swyddogion yn trafod gyda ffermwyr sydd wedi cael eu dewis yn dilyn y broses ddethol.

Ar hyn o bryd, mae rheolwyr contractau wrthi'n llunio contractau ar gyfer 2019. Bydd y llythyrau â'r dewisiadau terfynol yn cael eu dosbarthu gyda rhestr o haenau a champau gweithredu posibl a bydd trafodaethau yn cael eu cynnal yn y Gwanwyn/ Haf 2018. Mae'r broses hon i gyd ar-lein. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd dderbyn y contract cyn 31/12/2018 er mwyn i gytundebau newydd ddechrau ar 01/01/2019.

### **Y Meini Prawf ar gyfer Gwneud Cais**

Mae'r rhaid i'r ymgeisydd fod ag o leiaf 3 hectar o dir wedi'i gofrestru ar gronfa ddata System Integredig Gweinyddu a Rheoli. Mae'n rhaid i ffermwyr fod wedi cofrestru â Llywodraeth Cymru ac yn berchen ar rif cwsmer. Mae'n rhaid i ffermwyr hefyd fod â rheolaeth lawn dros y tir drwy gydol cyfnod y cytundeb o 5 mlynedd. Gall tenantiaid wneud cais, fodd bynnag ni all tenant fod yn rhan o un cynllun a'r tîrfeddiannwr yn rhan o gynllun arall. Naill ai'r landlord neu'r tenant yw'r derbynydd.

Mae tir amaethyddol yng Nghymru yn gymwys ar gyfer Glastir. O dan y Cynllun Glastir - Tir Comin, mae'n rhaid cofrestru tiroedd comin. O dan y Cynllun Coetir Glastir, rhaid sicrhau bod rhif y llain o dir wedi'i gofrestru (isafswm 0.5ha). Bydd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer creu coetir yn agor ym mis Ebrill 2018.

### **Beth yw Glastir Uwch?**

Cynigir cefnogaeth ariannol i dirfeddiannwyr a rheolwyr tir er mwyn ymgymryd â gwaith amgylcheddol sydd wedi'i dargedu at ardaloedd penodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cysylltu â phartneriaid (yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, RSPB a Butterfly Trust) i ddarparu data sydd yn cael ei ddefnyddio yn ystod y broses ddethol. Os nad yw'r gwaith sy'n cael ei gynnig drwy'r datganiadau o ddiddordeb yn yr ardaloedd targed ni fydd y cynnig yn llwyddiannus. Efallai y bydd rhaid i ffermwyr newid arferion er mwyn cyd fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru (dŵr a charbon) e.e. Hyrwyddo'r weithred o ddal a storio carbon ar ucheldiroedd, byddai rheolwyr tir yn lleihau stoc ar yr ucheldiroedd yn y gaeaf.

### **Beth yw'r Prif Flaenoriaethau?**

Bioamrywiaeth, Tirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol a Mynediad yw'r prif flaenoriaethau. Defnyddir dull deubig er mwyn sicrhau mwy o gyfluedd mynediad, yn bennaf drwy Fforymau Mynediad Lleol ac yn ail drwy drafodaethau rhwng Ffermwyr a Swyddogion Llywodraeth Cymru.

### **Mapiau**

Mae 50 i 60 o fapiau yn dangos lleoliadau rhywogaethau adar, planhigion, SoDdGA, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, gwybodaeth goedwigaeth am goetir a gwybodaeth gan Asiantaeth Yr Amgylchedd am afonydd. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan Fforymau Mynediad Lleol hefyd ar y mapiau hyn.

### **Map Mynediad**

Mae'r map mynediad yn nodi 3 llwybr cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru, Parciau Cenedlaethol a Llwybrau Beicio fan lleiaf. Mae unrhyw beth sy'n cael ei fewnbynnu gan y Fforymau Mynediad Lleol wedyn yn cael ei ychwanegu.

### **Sgorio**

Mae gan bob haen sgôr ac mae maint y fferm yn pennu'r sgôr. Mae'r system sgorio yn deg i ffermydd o bob math a maint ac i fentrau fferm.

Pan fo fferm yn cael ei dewis, cynhyrchir llythyr a dogfen yn rhestru'r haenau amcan y mae'r fferm wedi'i lleoli arnynt. Gall diddordebau newid o fferm i fferm, hyd yn oed gyda chymdogion. Yn erbyn yr amcanion hyn mae rhestrau o ganlyniadau rheoli y gellid eu cyflawni ac isafswm o un cam gweithredu sy'n rhaid ei gwblhau ar gyfer pob haen sydd wedi'i nodi.

Mae haenau mynediad caniatool yn ddewisol, fodd bynnag mae Swyddogion Llywodraeth Cymru yn annog y dewis hwn yn gryf, tra bod y Fforwm Mynediad Lleol wedi awgrymu y byddai cyswllt yn ddefnyddiol. Mae ardaloedd mynediad a llwybrau mynediad llinellol yn ddewisiadau a gellir hawlio gwaith cyfalaf am gelfi cysylltiol, Safonau Prydeinig ac i addasu ar gyfer defnyddwyr anabl.

Os nad oes Fforwm Mynediad Lleol yn weithredol, gall ffermwyr sy'n dymuno datblygu ardaloedd mynediad wneud hynny drwy adran hawliau tramwy yr Awdurdod Lleol.

### **Beth sydd gan Glastir ei eisiau gan y Fforymau Mynediad Lleol?**

Gwybodaeth y Fforwm Mynediad Lleol – lle mae angen cysylltiadau mynediad a fydd o gymorth i leihau'r effaith ar atyniadau i dwristiaid a chreu llwybrau at olygfannau. Os nad oes unrhyw beth yn cael ei gyflwyno gan y Fforwm Mynediad Lleol ond yn hytrach mae'r rheolwr contractau yn gweld cyfle, amlygir hyn a gall y tirlfeddiannwr ysgrifennu at y Fforwm Mynediad Lleol a gofyn iddo gyflwyno'r llwybr.

Cytunodd Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol bod hon yn ymagwedd addas.

### **Cwestiynau**

Gofynnodd Martyn Holland a oedd gan y ffermwyr fynediad cyffredinol at y mapiau gyda haenau bioamrywiaeth a hanesyddol.

Eglurodd Jane Tibbott fod gan y cyhoedd i gyd fynediad drwy ymweld â'r dolenni ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/schemes/glastir/glastir-advanced/?skip=1&lang=cy>

Gofynnodd Jo Hughes a oedd gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn llwybr cefylau cenedlaethol o ogledd i dde Cymru.

Dywedodd JT, os oedd Fforymau Mynediad Lleol yn cefnogi'r llwybr yna y gellid ei gyflwyno. Nid yw'n rhy hwyr i gyflwyno gwybodaeth o ran mynediad ond nid yw JT yn gwybod beth fydd yn digwydd i'r cynlluniau ar ôl i gytundebau 2019 ddechrau, nid yw'n sicr os bydd cyfle arall. Fodd bynnag, bydd unrhyw beth sy'n cael ei gyflwyno yn cael ei anfon ymlaen at unrhyw gynllun sy'n dilyn Glastir.

Dywedodd Paul Frost bod y cynllun yn seiliedig ar dirfeddianwyr yn ymddwyn yn rhagweithiol ac yn bachu ar y cyfle. Efallai y bydd achosion pan fydd partneriaid eraill yn gweld yr angen am gais, felly a oes modd ymgysylltu â thirfeddianwyr?

Dywedodd JT nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cysylltu â hwy. Mae hwn yn gynllun gwirfoddol ac ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn cysylltu â ffermydd unigol, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu nad yw sefydliadau eraill yn cael cysylltu â thirfeddianwyr a thynnu sylw at y cynllun amaeth-amgylcheddol fel dull rheoli.

Dywedodd John Buckley mai un amod o dderbyn Glastir oedd bod hawliau tramwy yn cael eu cadw ar agor. Pa gamau dylid eu cymryd os yw hawl tramwy yn cael ei flocio?

Dywedodd JT fod hyn yn rhan o God Y Fferm Gyfan ac nid oedd ffermwyr yn cael eu talu i gadw hawliau tramwy ar agor. Mae'n rhwymedigaeth i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol - hynny yw cadw Hawl Dramwy Gyhoeddus yn agored, peidio ag achosi difrod i SoDdGA ac ati. Mae gan Reolwyr Contractau gysylltiadau â Swyddogion Hawl Dramwy Gyhoeddus i wirio eu bod ar agor, fodd bynnag cyfrifoldeb y ffermwr a'r Swyddog Hawl Dramwy Gyhoeddus yw cysylltu â'i gilydd. Gellir atgyfeirio unrhyw rwystr at Arolygiaeth Wledig Cymru neu ei ddwyn at sylw Swyddogion Hawl Dramwy Gyhoeddus.

Ychwanegodd Helen Mrowiec, oherwydd bod mynediad yn elfen ddewisol, yn aml nid yw'r taliad yn ddigon deniadol oherwydd i lawer o dirfeddianwyr nid cynyddu mynediad yn ddewis a ffefrir. Ychwanegodd HM fod Cyngor Sir Ddinbych wedi llwyddo i restru dwy ardal fel tir comin ac mae gwaith yn parhau, sydd wedi dod â chominwyr ynghyd, ond mae wedi bod yn anodd ei gael i Glastir. A oes yna fwy o arian ar gael ar gyfer mynediad a mwy o ffocws neu hyblygrwydd i helpu cominwyr?

Dywedodd JT y dylai sylwadau o'r fath fel Fforwm Mynediad Lleol gael eu cynnwys yn adolygiad y cynllun drwy ymgynghoriad, fodd bynnag nid yw taliadau yn debygol o newid.

O ran y sylw am y tiroedd comin, bu cynllun tiroedd comin ar waith a oedd yn nodi bod rhaid i 80% o bobl â hawliau cofrestredig gytuno i ymuno â'r cynllun a chytuno i greu cymdeithas, fel nad oedd taliadau yn cael eu gwneud i gominwyr yn uniongyrchol ond i gymdeithas.

Dywedodd Kevin Slattery bod tirfeddianwyr yn gadarnhaol ar y cyfan a bob amser yn gwneud eu gorau. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r cyflwyniad gwirfoddoli, hynny yw bod miloedd o unigolion yn rhoi eu hamser. Yn wir, mae 15 miliwn o bobl yn gwirfoddoli unwaith y mis ac 20 miliwn unwaith y flwyddyn. Gofynnodd Kevin a oedd ffigur o'r hyn a oedd yn cael ei dalu i dirfeddianwyr fesul cilometr o hawl tramwy.

Atebodd JT fod rhaid i dirfeddianwyr sicrhau nad oeddent yn blocio hawliau tramwy ond nad oedd cynlluniau yn talu am Hawl Dramwy Gyhoeddus. Mae'r holl daliadau ar y wefan ac yno gwelir y manylion ar gyfer mynediad caniatool.

Holodd Tom Woodall am yr adolygiad o'r mapiau. Dywedodd JT, ym mis Awst, unwaith y bydd yr holl ddiweddariadau wedi'u derbyn, y byddai Jane yn eu hanfon at yr uned gartograffeg ac y bydd unrhyw beth gan y Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei anfon at y tîm Glastir Uwch Lleol. Mae Mapiau Digidol yn cael eu diweddaru pan fo'r diweddariadau yn cael eu derbyn.

Gofynnodd Max Grant sut yr oedd Fforymau Mynediad Lleol yn gallu cael mynediad at y llwybrau a oedd wedi'u cyflwyno. Anfonwyd CDau nifer o flynyddoedd yn ôl ond nid yw'r awdurdodau lleol wedi'u cadw. Hefyd, sut all y cyhoedd ganfod pa fynediad sydd ar gael drwy Glastir?

Dywedodd JT, cyn Cyfoeth Naturiol Cymru, roedd mynediad Tir Gofal i'w weld ar fapiau Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Ers creu Cyfoeth Naturiol Cymru, mae Lle wedi'i ddatblygu fel adnodd TG ar gyfer hyn. Gwelir manylion yma: <http://lle.gov.wales/home?lang=cy>

Rhoddir nodwyr llwybr mynediad caniatool i dirfeddianwyr allu cyfeirio'r llwybrau caniatool tu hwnt i'r hawl dramwy gyhoeddus ar y tir.

Gofynnodd MG i JT anfon y meini prawf cyfredol ar gyfer mynediad caniatool. Dywedodd JT mai cyfrifoldeb y Fforwm Mynediad Lleol oedd tynnu sylw at lwybrau o bwysigrwydd lleol gan y derbyniwyd beirniadaeth o dan Tir Gofal gan Gymdeithas y Cerddwyr a Chymdeithas Ceffylau Prydain o ran sut oedd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwybod yn lle y dylai'r llwybrau fod.

Bydd JT yn anfon unrhyw beth perthnasol ymlaen at y Fforwm Mynediad Lleol.

Gofynnodd Martyn Holland am Arolygiaeth Wledig Cymru. Dywedodd JT fod sawl haen i'r arolygiadau, sydd o fewn yr isadran taliadau gwledig. Mae timau yn Llandudno, Caernarfon, Y Drenewydd a Llandrindod.

Diolchodd GB i JT am ei hamser ac am roi cipolwg ar Glastir Uwch i'r Fforwm Mynediad Lleol.

### **Diweddariad o gyfarfod Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol**

Cafwyd diweddariad gan Gwen Butler o gyfarfod Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr. Nid oedd y cyfarfod hwn yn gynrychiadol o ran rhyw gan mai Gwen oedd yr unig ferch heblaw am staff Cyfoeth Naturiol Cymru! Cynrychiolwyd 12 o Fforymau Mynediad Lleol a bu iddynt weithio drwy nodiadau cyfarfodydd cadeiryddion ac ysgrifenyddion y gogledd a'r de. Yn anffodus ni aeth y cyfarfodydd gystal â'r disgwyl ac fe awgrymwyd y byddai cynnal cynhadledd genedlaethol a gweithdy i ysgrifenyddion ar wahân yn fwy buddiol.

Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys:

- Cynlluniau Glastir a Choetir Glastir.
- Manylodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar ei ymateb i'r papur 'Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy' fel y gwnaeth Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych yng nghyfarfod mis Medi.
- Trafodwyd cyfuniad posibl o Fforymau Mynediad Lleol Wrecsam a Sir y Fflint, ond nid oedd unrhyw un wedi cysylltu â Sir y Fflint yn ffurfiol.
- Gofynnwyd hefyd i'r rhai a oedd yn bresennol i gefnogi Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn yn ei wrthwynebiad o Wylfa Newydd a'r llinellau pŵer newydd a fydd yn creu peilonau newydd a mwy i gludo'r ceblau hyn.

- Mae Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro wedi llwyddo i gael hawliau tramwy cyhoeddus ar neu gerllaw safleoedd i'w dangos ar geisiadau cynllunio.

Cyflwynwyd adroddiadau gan Fforymau Mynediad Lleol, roedd rhai ohonynt yn besimistaidd iawn. Y prif fanylyn oedd y cyfuniad posibl rhwng Fforymau Wrecsam a Sir y Fflint. Nid oedd ein diweddariad ni wedi'i gynnwys. Ymddengys bod Fforwm Mynediad Powys yn profi anawsterau.

Gofynnodd Jane Tibbott a oedd unrhyw fater wedi codi yr oedd yn rhaid iddi weithredu arno. Atebodd GB gan ddweud bod Evelyn Over wedi mynychu ac wedi crybwyll croesi tir agored a'r materion sy'n codi lle bo plannu ar fynediad agored yn digwydd. Mae'n rhaid sicrhau bod bwlch, fodd bynnag nid oedd unrhyw un yn y cyfarfod yn gwybod sut y dylid plismona hyn. Dywedodd JT y byddai hyn yn digwydd drwy'r Arolygaeth Wledig.

Dywedodd GB mai'r mater arall oedd sut oedd pobl yn dod i wybod am y cynlluniau. Nid yw cynlluniau na mynediadau caniatol yn cael eu hysbysebu ar safleoedd.

Bydd GB yn dosbarthu'r nodiadau o gyfarfod y Cadeirydd unwaith iddynt dderbyn cymeradwyaeth. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Aberystwyth. Maent yn ceisio sicrhau prif weithredwr o Awdurdod Lleol fel siaradwr.

### **Gwirfoddoli – cyflwyniad gan Y Bartneriaeth Awyr Agored gan Paul Frost**

Cynigodd Paul Frost, Aelod Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych, roi cyflwyniad i'r Fforwm yn ystod cyfarfod mis Mehefin, yn dilyn eitem ar y rhaglen am Adolygiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Cyflwynodd PF ychydig o wybodaeth gefndirol am strwythur y Bartneriaeth Awyr Agored a phwysleisiodd y byddai'r cyflwyniad yn canolbwyntio ar eu rhaglen wirfoddoli. Mae'r gwirfoddolwyr yn y rhaglen werth £1.6 miliwn yn flynyddol, pe bai'n rhaid prynu eu harbenigedd.

Diffiniad gwirfoddolwyr yw unigolyn sy'n rhoi tair awr o'i amser at achos bob wythnos. Mae gan y Bartneriaeth Awyr Agored 850 0 wirfoddolwyr ar draws 100 o glybiau.

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn cael ei chynnal gan Simon Jones ac wedi'i lleoli yng Nghapel Curig. Mae'n canolbwyntio ar greu Gogledd-Orllewin Cymru â gweledigaeth o recriwtio, hyfforddi, gwobrwyo, casglu a dilyn gwybodaeth.

Maent yn defnyddio system byramid, sy'n golygu bod gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi ac yna'n cael eu hannog i recriwtio mwy o wirfoddolwyr, sydd yna'n cael eu hyfforddi i recriwtio mwy ac ati.

### **Recriwtio**

Anaml iawn y bydd un dull yn gweddu i bob gweithgaredd, felly mae ffurflenni recriwtio yn aml yn unigryw i brosiect neu weithgaredd. Mae sawl ffordd o recriwtio gan gynnwys hysbysebu ar-lein, posteri mewn clybiau ac adeiladau cymunedol ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ymgysylltir â rhieni yn aml i gyfrannu a chymryd rhan, yn hytrach na defnyddio'r clybiau fel cyfleusterau gwarchod plant. Caiff gwiriadau datgelu a gwahardd eu cyflawni drwy gyllid gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru neu'n uniongyrchol drwy gyllid y prosiect. Mae llawer o brosiectau yn cynnwys cyswllt uniongyrchol â phlant neu oedolion diamddiffyn.

## Hyfforddiant

Mae ffin denau iawn rhwng recriwtio a pheri i rhywun beidio â gwirfoddoli. Mae rhaglen wirfoddoli strwythuredig wedi'i datblygu er mwyn i wirfoddolwyr gael gwybod yn union beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt, i bwy y maent yn atebol a beth fyddant yn ei wneud. Darperir hyfforddiant iechyd a diogelwch a diogelu yn aml, megis gwybod pwy i adrodd yn ôl ato a chynnal asesiadau risg.

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn ceisio cysylltu hyfforddiant â chymwysterau er mwyn i wirfoddolwyr allu gadael â thystysgrif neu gymhwyster cydnabyddedig i'w roi ar eu CV. O safbwynt pobl ifanc, mae hyn yn dangos ymrwymiad a phroffesiynoldeb wrth iddynt symud i'r byd gwaith a dechrau chwilio am swyddi. Gofynnodd y Bartneriaeth Awyr Agored i'r rheiny a oedd wedi cymhwyso roi peth o'u hamser i'r clybiau. Mae prosiect ar gyfer merched a genethod yn mynd rhagddo i ddatblygu mwy ar gyfer chwaraeon lefel uwch. Mae mentoriaid fel arfer yn rhoi o'u hamser yn ddi-dâl.

Ar hyn o bryd, mae gan y Bartneriaeth Awyr Agored 850 o wirfoddolwyr gweithredol ond mae 2,500 wedi'u hyfforddi yn ystod yn 10 mlynedd diwethaf. Yn aml, pan fydd plentyn yn gadael clwb bydd y rhiant yn gadael hefyd, felly mae'r bartneriaeth yn canolbwyntio ar gadw gwirfoddolwyr. Mae cynllun gwirfoddolwr y mis, er enghraifft, yn gymhelliant da, yn ogystal â gofyn i rai unigolion ysgwyddo ychydig o'r cyfrifoldeb unwaith iddynt dderbyn hyfforddiant, hynny yw, cynnal clwb neu fentora i ddatblygu sgiliau.

## Cyd-destun Cyfreithiol

Mae modd i wirfoddolwyr hawlio treuliau ond nid oes modd iddynt hawlio tâl.

Mae achos diweddar yn y newyddion yn profi'r angen am strwythur gwirfoddoli. Mae'r achos yn ymwneud â marwolaeth gwylwr yn ystod digwyddiad beicio mynydd yn ceisio erlyn trefnydd y digwyddiad a gwylwr gwirfoddol.

Mae gan wirfoddolwyr yr hawl i gael eu gwarchod. Mae'n rhaid iddynt dderbyn yr hyfforddiant cywir, gwybod yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt a phwy i adrodd yn ôl ato os yw unrhyw beth yn mynd o'i le. Beth am yswiriant? Cyn belled â bod y cyd-destun gwirfoddoli a'r contract gwirfoddoli yn eu lle, mae'r premiymau i yswirio gwirfoddolwyr yn eithaf isel.

## Cyllid

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi buddsoddi £700,000 dros 10 mlynedd yn hyfforddi gwirfoddolwyr. Ar gyfartaledd o £70,000 y flwyddyn yr adenillon yw 1:14 hynny yw £14 am bob £1 a wariwyd ar hyfforddiant. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw'r prif ddarparwr cyllid, ynghyd â Chwaraeon Cymru a'r Gist Gymunedol, sydd yn ffynhonnell ardderchog o gyllid cymunedol, nad yw wedi tanysgrifio'n llawn eleni.

## Beth yw strwythur Rhaglen Wirfoddoli Gyffredin?

Gan ddefnyddio grant o £500,000 a ariannwyd gan y loteri, yn ogystal â £2.6 miliwn o gyllid partneriaeth dros 3 blynedd, ymgwymerodd y Bartneriaeth Awyr Agored â rhaglen i ddarparu cyfleoedd awyr agored ar gyfer grwpiau sy'n ymgysylltu llai megis merched a genethod a defnyddwyr anabl.

Gan ddefnyddio'r strwythur pyramid, y nod oedd recriwtio 36 o wirfoddolwyr i weithio gyda phobl anabl a merched yn ystod y flwyddyn gyntaf. Yna'r nod oedd cadw 8 neu 10 o'r gwirfoddolwyr hynny a oedd wedyn yn derbyn hyfforddiant recriwtio gwirfoddolwyr a gofynnwyd iddynt recriwtio 6-10 gwirfoddolwr,

a oedd yn y pen draw yn arwain at gyfanswm 120 o wirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf. Caiff y broses ei hailadrodd yn ystod y flwyddyn ganlynol, sy'n arwain at 380 o wirfoddolwyr hyfforddedig ym Mlwyddyn 3. Mae hwn yn fodel cynaliadwy ac nid oes angen cyllid i'w gynnal o reidrwydd. Gallai'r rhaglen gynnal ei hun o bosib.

Sylwer: Gadawodd GB y cyfarfod am 11:55. Cyrhaeddodd HC am 12:00

## **Diweddariad ar Adolygiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ymddiheurodd Victoria Currie am yr oedi o ran derbyn y llythyr Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Mae pob asesiad bellach wedi'i gwblhau, unwaith y bydd y rheolwr wedi'u cymeradwyo bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i'r Fforwm Mynediad Lleol er mwyn creu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd. Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ym mis Chwefror ac yn para am dri mis.

Gofynnodd TW a oedd y Fforwm Mynediad Lleol yn cael bod yn rhan o adolygiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy diwethaf neu'n rhan o osod y cyfeiriad strategol ar gyfer y cynllun newydd. Esboniodd VC bod yr asesiadau yn cael eu cynnal yn fewnol ond y byddai mewnbwn yn angenrheidiol ar gyfer y cam nesaf.

Gofynnodd MG a oedd modd i'r Fforwm Mynediad Lleol fod yn rhan o'r adolygiad. Dywedodd VC bod yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar ffeithiau a ffigyrau mewnol. Bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd. Nododd VC nad oedd cyllid y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy presennol yn parhau a bod ei phennaeth gwasanaeth wedi ymddeol.

Dywedodd Paul Mitchell nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyllid ar gyfer cynnal a chadw mynediad oherwydd dyletswyddau statudol ar yr Awdurdodau Lleol, fodd bynnag mae CNC yn gallu cyllido gwelliannau eraill.

Ychwanegodd PF fod y rhagolwg yn ymddangos yn ddu i gyd, a gofynnodd a oedd opsiynau i weithio drwy gyllid cymunedol?

Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol i Gwen anfon llythyr a oedd yn mynegi pryderon y Fforwm Mynediad Lleol mewn perthynas â cholli ffrwd gyllido'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, gan nodi bod disgwyliad y bydd cyllid ar gael yn ystod cyfnod cynnal yr adolygiad a datblygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd.

Awgrymodd PF y dylid anfon copi o'r llythyr at Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwaraeon Cymru a'r Adran Iechyd.

Awgrymodd MG y dylid ei anfon at Hannah Blythyn, Aelod Cynulliad a chynnwys adrannau eraill.

Gofynnodd MG gwestiwn pellach i VC am adolygiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Cymrodd yn ganiataol y byddai'r arian sy'n cael ei dderbyn drwy 'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad i ddangos yr hyn sydd wedi'i gyflawni.

Cadarnhaodd VC hynny.

<b>Pwynt Gweithredu 6.1</b>	HA a GB i lunio llythyr drafft i Hannah Blythyn ac adrannau eraill mewn perthynas â cholli cyllid ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau	
-----------------------------	---	--



	Tramwy. HA i ddsbarthu'r llythyr drafft ymysg y Fforwm Mynediad Lleol.	
--	--	--

### Cyngor Sir Ddinbych

Cyflwynodd HA ddiweddariad a oedd wedi'i lunio gan Adrian Walls a oedd yn absennol o'r cyfarfod. Mae'r llythyr a'r amserlen wedi'u rhoi ar y rhestr o ymgynghoreion yn ddiweddar ac roedd HA eisoes wedi'i ddsbarthu i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol.

Mae AW bellach wedi gorffen mewnbynnu'r data o'r arolwg hawliau tramwy 163km. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn anfon y data hwn i'w ddadansoddi o fewn y gwasanaeth hawliau tramwy yn ogystal â gan yr ymgynghorwyr Exegesis sy'n darparu'r system asedau. Bydd eu dadansoddiad yn canolbwyntio ar natur ac effaith y problemau ar y rhwydwaith.

Y cam nesaf ym mhroses adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy fydd ymgynghori â defnyddwyr y llwybr, tir-ddeiliaid a chymunedau, mwy na thebyg y gwneir hyn drwy ddigwyddiadau ymgynghori a holiaduron ar-lein.

### **Adborth gan Awdurdodau Lleol am y Cynllun Rhoi Giât**

#### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Lluniwyd dogfen gan Sian Williams yn cynnwys ei barn bersonol a chwestiynau ar gyfer ei rheolwr atebol am y posibilrwydd o ddatblygu cynllun yng Nghonwy, yn dilyn cyflwyniad Kevin a thrafodaethau yn y swyddfa. Cynigir cynllun meinciau ar hyn o bryd yng Nghonwy. Mewn rhai ardaloedd, lle bo'r meinciau benben â'i gilydd, gall hyn dynnu oddi ar yr amgylchedd.

Roedd cwestiynau Sian yn cynnwys:

- A oes modd i CBSC ofyn am gyfraniadau i ddarparu eitemau eraill megis meinciau picnic neu giatiau?
- A oes gan CBSC ddigon o feinciau coffa?
- A ellir cynnig giatiau a chamfeydd a fydd yn rhoi amrywiaeth ehangach o leoliadau ar gyfer cofebion?
- A fyddai cynllun o gymorth â thoriadau i'r gyllideb a sut ellir cyflawni hyn yng Nghonwy?

Tynnodd SW sylw at y ffaith fod y Parciau Cenedlaethol wedi profi trafferthion â chofebion anawdurdodedig parhaol a dros dro yn cael eu gosod ar eu safleoedd.

Dywedodd SW fod y tîm ar Ynys Wyth yn gswllt da ac fe holodd os fyddai gweinyddwr o Gymdeithas y Cerddwyr yn bosibilrwydd yng Nghonwy. Byddai gweinyddu yn ystyriaeth fawr wrth ddatblygu cynllun, yn enwedig gan nad oes adran hawliau tramwy yng Nghonwy erbyn hyn, pwy fyddai'n coladu'r wybodaeth ac yn penderfynu ar leoliadau ar gyfer y dodrefn?

Mae cwestiynau eraill yn codi mewn perthynas â lleoliadau, math o ddodrefn, placiau, fandaliaeth a hyrwyddiad.

Mae gan SW gyfarfod gyda VC a Tom Gravett ar 24 Ionawr. Roedd Sian o'r farn y byddai datblygu cynllun yn beth da iawn pe bai'r ochr weinyddol yn gallu cael ei datrys.

#### Cyngor Sir Ddinbych

Dosbarthwyd Polisi Cofebion Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych gan Hannah Arndt yn ogystal â manylion prosiectau diweddar a pharhaus ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, sydd wedi bod yn bosibl oherwydd cyfraniadau coffa. Ar hyn o bryd nid oes cynllun ffurfiol ar waith. Caiff aelodau o'r

cyhoedd sy'n dymuno rhoi cyfraniad eu cyfeirio at yr amodau o fewn y polisi cofebion ac mae swyddogion yn gweithio gyda theuluoedd er mwyn ceisio creu rhywbeth arbennig, i'r teuluoedd allu cofio eu hanwyliaid, sydd hefyd yn cyd-fynd â'r polisi. Ar hyn o bryd mae pedwar o brosiectau yn mynd rhagddynt o ganlyniad i gyfraniadau. Mae'r rhain yn cynnwys prynu coed addurniadol ar gyfer yr ardd ym Mhlas Newydd, Llangollen a disodli camfa am giât ar Moel Famau.

Nid yw'r Gwasanaeth Cefn Gwlad eisiau cyflwyno cynllun megis y 'Cynllun Rhoi Giât' ar hyn o bryd gan fod y dull presennol yn gweithio, ond nid yw'r gwasanaeth wedi diystyru'r cynllun ar gyfer datblygiad yn y dyfodol. Roedd HA yn awyddus i wybod beth oedd canlyniad cyfarfod Conwy a sut yr oeddent yn bwriadu rheoli rhan weinyddol y cynllun yn benodol.

Dywedodd Kevin Slattery mai calonogol iawn oedd gweld bod y ddau Awdurdod Lleol yn ystyried cynlluniau. Dywedodd hefyd nad oedd yn rhaid iddo fod yn gynllun ar gyfer giatiaau a'i fod yn dibynnu ar ba mor rhagweithiol yw Awdurdodau Lleol wrth awgrymu bod unigolion yn rhoi cyfraniadau tuag at rywbeth arall heblaw giatiaau. Ychwanegodd nad oedd rhaid i unigolion roi cyfraniad er cof am rywun ac y gellid rhoi cyfraniadau ar achlysuron o ddathlu.

Dywedodd y Cynghorydd Don Milne fod y dull hwn yn gyfle gwych i ofyn wrth unigolion os oeddent wedi ystyried giât neu eitemau eraill.

Gofynnodd Max Grant os allai'r Fforwm Mynediad Lleol rhoi sylw ar ganlyniad cyfarfod staff Conwy. Dywedodd VC y byddai'r dudalen goffa ar wefan Conwy yn cael ei diweddarau a rhagwelodd y dewisiadau gan gynnwys meinciau, coed a giatiaau.

Dywedodd y Cynghorydd Martyn Holland fod hon yn ffordd adeiladol o ddelio â chofebion gan ychwanegu bod cofebion ger ochr ffyrdd yn gallu achosi problemau. Soniodd hefyd bod CSDd wedi gorfod cymryd camau i fynd i'r afael ag addurniadau mewn mynwentydd.

Ychwanegodd Paul Frost bod tystysgrif yn bwysig iawn.

Pwynt Gweithredu 6.2	Awdurdodau Lleol i roi adborth yn ystod y cyfarfod nesaf gydag awgrymiadau pellach am gynllun.	
-------------------------	--	--

### Dyddiad cyfarfodydd sydd i ddod:

- 8 Mawrth 2018
- 7 Mehefin 2018
- 6 Medi 2018
- 6 Rhagfyr 2018